***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1351 (W. 350)

# CYDRADDOLDEB, CYMRU LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 9.35 a.m. ar 1 Rhagfyr 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Rhagfyr 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 2(4)(a) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 209(2), (3)(a) a (6)(**2**) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Rhif 2) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

### Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010

**2.** Yn adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol), yn is-adran (3A)(**3**), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(ba) a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021(**4**);".

(**1**) 2010 p. 15. Mae adran 2(4)(a) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn ychwanegu awdurdod perthnasol at y rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 1. Mae "relevant authority" wedi ei ddiffinio yn adran 2(6), a ddiwygiwyd gan baragraff 83(1) a (2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 209(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) Mewnosodwyd is-adran (3A) gan O.S. 2021/295 (Cy. 72).

(**4**) 2021 dsc 1.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o

Am 9.35 a.m. ar 1 Rhagfyr 2021

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Deddf 2010") yn darparu'r rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd sector cyhoeddus ynghylch anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ("y ddyletswydd"). Caiff Gweinidogion Cymru, o dan adran 2(4)(a) o Ddeddf 2010, ychwanegu awdurdod perthnasol at y rhestr o awdurdodau sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Ystyr "relevant authority" yw awdurdod Cymreig datganoledig (o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) y mae ei swyddogaethau'n cyfateb i swyddogaethau awdurdod a bennir am y tro yn is-adran (3) neu y cyfeirir ato yn is-adran (4) o adran 1 o Ddeddf 2010 neu y mae ei swyddogaethau'n debyg i swyddogaethau awdurdod o'r fath.

Mae'r Rheoliadau hyn yn arfer y pŵer yn adran 2(4)(a) o Ddeddf 2010 i ddiwygio adran 1 o'r Ddeddf honno er mwyn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig at y rhestr o awdurdodau perthnasol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.